Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd

Adroddiad Blynyddol (Hydref 2018 – Hydref 2019)

Rhif Elusen Gofrestredig: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

Strwythur, Trefn Lywodraethol a Rheolaeth:

Yr Ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r Gymdeithas:
(*penodwyd ac ailbenodwyd mewn CCB ym mis Hydref 2018*)
Gerallt W. Hughes – **Cadeirydd**; Beryl H Griffiths – **Ysgrifennydd Cyffredinol**; Gwerfyl Price – **Trefnydd Cyfarfodydd**; Rheinallt G Llwyd – **Trysorydd**; A. Lloyd Hughes – **Golygydd**; Megan Huggins – **Ysgrifennydd Aelodaeth**.

Cyllid: [Rheinallt G Llwyd]

Fe welir o'r Cyfrifon am 2018-19 fod diffyg o -£61.47 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a hynny'n adlewyrchu dau beth yn benodol sef cynnydd mewn costau a gostyngiad mewn incwn. Ar y llaw arall, braf yw gallu adrodd fod cynnydd bychan wedi bod yn y llogau ar gyfrifon adnau ac mae gan y Gymdeithas asedau ariannol gweddol foddhaol wrth gefn.

Aelodaeth: Mawrth 2018 – Mawrth 2019: [Megan Huggins]

CRYNODEB O NIFEROEDD AELODAU						
Diwedd Blwyddyn	Cyffredinol	Oes	Unigol	Teulu	Cymdeithasau Hanes Lleol	Sefydliadau
Maw '18	**243**	7	163	46	3	24
Maw '19	**240**	6	159	47	3	25

Cyfarfodydd: [Gwerfyl Price]

Cafwyd rhaglen ddifyr unwaith eto eleni, gan ddechrau gyda darlith gan yr athrylithgar Athro Gruffydd Aled Williams. Camodd Gruffydd Aled i'r bwlch yn fyr rybudd. Daeth nifer ardderchog iawn i wrando arno'n siarad ar y testun 'O'r Ganllwyd i Russell Gulch: Edward Wynne Williams, un o arloeswyr aur Colorado'. Cafwyd cyflwyniad PowerPoint hynod ddifyr i gyd-fynd â'r sgwrs yn olrhain hanes a bywyd y gŵr o Dyddyn Gwladys, Ganllwyd a fudodd i'r Unol Daleithiau yn 1869 cyn gwneud ei ffortiwn yn cloddio a dod yn berchen ar nifer o weithfeydd aur yn Colorado. Roedd yn gymeriad hynod liwgar yn ei fywyd gwaith a charwriaethol yn ôl y sôn! Daeth nifer dda iawn o deulu Edward Wynne Williams hefyd i'r cyfarfod, llawer ohonynt yn dal i fyw yn ardal Dolgellau ac yn ymfalchïo yn y berthynas.

Yna ar y 1af o fis Mehefin, daeth nifer dda o aelodau'r Gymdeithas ynghyd unwaith eto i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i wrando ar sgwrs ar Gasgliad Brogyntyn gan Hilary Peters, Archifydd Cynorthwyol gyda'r Llyfrgell. Tyfodd Brogyntyn o fod yn gastell mwnt a beili Cymreig, a sefydlwyd efallai gan Owain Brogyntyn ap Madog yn y 12fed ganrif, ac sydd ond ag olion ohono ar ôl ym Mharc Brogyntyn erbyn heddiw, i fod yn un o ystadau mwyaf Gogledd Cymru (er yn Lloegr, roedd yr ardal o gwmpas Brogyntyn yn Gymreigaidd iawn am ganrifoedd). Brithwyd y sgwrs gan luniau o adeiladau a phobl yn gysylltiedig â hanes yr ystâd, a llythyrau rhwng y teulu a'u cysylltiadau. Yna cafwyd arddangosfa o hen greiriau'n ymwneud â Brogyntyn a Glyn Cywarch, a thaith dywys o gwmpas y Llyfrgell yng nghwmni Hilary. Roedd yn ddiwrnod cofiadwy wedi'i hwyluso'n gampus unwaith eto gan staff y Llyfrgell. Diolch yn fawr iddi hi a hwythau.

A hithau'n ddiwrnod braf ar ddechrau Medi, daeth cynulleidfa deilwng iawn i adeilad y Beudy Llwyd yn yr Ysgwrn yn Nhrawsfynydd i wrando ar y Dr Marian Gwyn yn traethu, yn Saesneg, yn eithriadol ddifyr ac awdurdodol ar Wlân Cymru a Masnach Caethwasiaeth yr Iwerydd. Fel pwnc hynod anodd ei drafod yn gyffredinol, awgrymodd ei bod efallai'n anoddach fyth i ni Gymry feddwl am ein rhan ni mewn caethwasiaeth oherwydd ein bod yn hanesyddol yn meddwl amdanom ein hunain fel gwlad a phobl werinol a fu'n flaenllaw, yn enwedig drwy'r undebau llafur, yn amddiffyn y sathredig. Er hynny, y realiti oedd bod y fasnach hon yn cyffwrdd ag amryw byd o wledydd a doedd Cymru, a'i rhan yn y 'fasnach drionglog' hon, ddim yn eithriad. Gellid dadlau mai'r fasnach wlân oedd yr un fwyaf yng Nghymru am ganrifoedd ond prin er hynny fod y gwehydd, y pannwr a'r lliwydd cyffredin yn ymwybodol neu'n ymhél llawer â'r gwirionedd mai i ddilladu caethweision yr oedd llawer iawn o'u cynnyrch yn mynd a bod gwlân Cymru'n adnabyddus nid yn unig fel 'Welsh plains' ond yn gyfystyr â 'negro cloth' yn gyffredinol. Roedd ffeithiau moel ac echrydus y ddarlith am ystadegau'r fasnach yn ei hanterth yn ddigon i oeri'r gwaed a gallwn ond diolch heddiw ein bod yn byw mewn oes fwy goleuedig a gwâr. Fel awdurdod ar y pwnc, gobeithiwn y bydd Marian yn rhoi ei sgwrs ar ddu a gwyn i ni'n fuan iawn. Cawsom de a chacen yn y caffi wedyn gan fwynhau'r golygfeydd godidog drwy ffenestri'r hen feudy.

***Y Cylchgrawn*:** [A. Lloyd Hughes]

Bydd *Cylchgrawn* eleni (Cyf. XVIII, Rhan II) yn cael ei ddosbarthu i'r aelodaeth yn ystod mis Hydref fel arfer. Bydd y rhifyn hwn yn 114 tudalen o faint, gan gynnwys y cloriau. Ceir 5 erthygl, 3 chyfraniad byr, Gweithrediadau'r Gymdeithas am 2018, 8 o adolygiadau a 14 o luniau. Dymuna'r Golygydd ddiolch i'r holl gyfranwyr am eu llafur a'u cefnogaeth i'r *Cylchgrawn*. Diolchir hefyd i'r cysodydd (Aeron Jones, Llanuwchllyn) a'r argraffwyr (WPG, Y Trallwng) eu gwaith rhagorol a'u cydweithrediad.

Y Wefan:

Mae'r wefan yn dal yn weithredol gan greu diddordeb yng ngweithgareddau'r Gymdeithas ac yn fodd i werthu'r *Cylchgrawn* a'r mynegai iddo. Mae i'w gweld yn: www.hanes-meirionnydd.cymru

Datganiad:

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol uchod.

Llofnodwyd ar eu rhan gan Gadeirydd y Gymdeithas,

_____

Gerallt W. Hughes

Dyddiad: _____

Merioneth Historical and Record Society

Annual Report (October 2018 – October 2019)

REGISTERED CHARITY NO: 1102366

Nant-y-llyn, Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd.

STRUCTURE, GOVERNANCE AND MANAGEMENT:

The Trustees who manage the Society:

(*appointed and re-appointed at an AGM in October 2018*)

Gerallt W. Hughes – **Chairman**; Beryl H Griffiths – **General Secretary**; Gwerfyl Price – **Meetings Organiser**; Rheinallt G Llwyd – **Treasurer**; A. Lloyd Hughes – **Editor**; Megan Huggins – **Membership Secretary**.

FINANCE: [Rheinallt Llwyd]

As can be seen from the accounts for 2018-19 we made a loss of -£61.47 at the end of the financial year and this reflects two issues in particular namely rising costs and a decreasing income. On the other hand there was a small increase in our 'interests on deposits' and the total financial assets which the Society has is reasonably satisfactory.

MEMBERSHIP: March 2018 – March 2019: [Megan Huggins]

SUMMARY OF MEMBERSHIP NUMBERS						
Year End	Overall	Life	Individual	Family	Local History Societies	Institutions
Mar '18	243	7	163	46	3	24
Mar '19	240	6	159	47	3	25

ACTIVITIES: [Gwerfyl Price]

The programme for the year has been an interesting and varied one again, beginning with a lecture by our President, Professor Gruffydd Aled Williams. He agreed to give this lecture at short notice. The meeting was very well attended to hear his discussion of the life of Edward Wynne Williams, one of the pioneers of the Colorado gold fields. Through the medium of a PowerPoint we followed the story of the man from Tyddyn Gwladys, Ganllwyd who emigrated to the United States in 1869 before making his fortune by owning a number of the gold mines of Colorado. He was an extremely colourful character in his work-life and love-life it seems! A number of Edward Wynne Williams's relatives attended the meeting, many of them still living in the Dolgellau area and proud of their relationship.

On the 1st of June, a good number of the Society's members visited the National Library at Aberystwyth to hear a talk on the Porkington Collection by Hilary Peters, Assistant Archivist at the Library. Porkington developed from a Welsh motte and bailey castle, established probably by Owain Brogyntyn ap Madog in the 12th century, with only traces of it remaining in Porkington Park today, and became one of North Wales's largest estates (although in England, the Welsh influence in the area around Porkington was strong for centuries). Images of buildings, letters and people associated with the estate's history illustrated the talk. Then we were led to an exhibition of items associated with Porkington and Glyn Cywarch, followed by a tour of the Library with Hilary. This was a memorable day facilitated excellently by the Library staff again. We appreciate their co-operation greatly.

On a fine day at the beginning of September, an excellent audience gathered at Beudy Llwyd at yr Ysgwrn, Trawsfynydd to hear Dr Marian Gwyn lecturing, in English, authoritatively and interestingly on Welsh Wool and the Atlantic Slave Trade. This is an extremely difficult subject in general, but she suggested that it is even more difficult for Welsh people to imagine our part in slavery as we tend to see ourselves as a country which has been prominent, especially through the trade unions, in protecting the exploited. However, the reality was that this trade touched very many countries and Wales, with its part in this triangular trade, was no exception. It could be argued that the woollen industry was the biggest industry in Wales for centuries but it is unlikely that the ordinary weaver, tanner and dyer were aware or dwelt much on the fact that much of their produce went to clothe slaves and that Welsh woollens were known as 'Welsh plains' that was synonomous with 'negro cloth'. The plain and horrifying facts regarding the trade at its height were indeed frightening and we can only be thankful that we live in a more enlightened and civilized period. As an authority on this subject, we hope that Marian publishes this lecture very soon. We enjoyed tea and cakes in the cafe afterwards whilst admiring the amazing landscape surrounding the building.

***THE JOURNAL*:** [A. Lloyd Hughes]

This year's *Journal* (Vol. XVIII, Part II) will be despatched to the membership in October as usual. It will be 114 pages in length, including covers, and will comprise 5 articles, 3 short contributions, Proceedings of the Society for 2018, 8 reviews an 14 illustrations. The Editor thanks all the contributors for their labour and support to the *Journal*. Thanks are also expressed to the typesetter (Aeron Jones, Llanuwchllyn) and the printers (WPG, Welshpool) for their exemplary work and co-operation.

THE WEBSITE:

The website is still active creating an interest in the Society's activities and has been valuable in promoting sales of the Journal and the index to it. It can be seen at

www.merioneth-history.wales

DECLARATION:

The Trustees approve the above Annual Report.

Signed on their behalf by the Chairman of the Society,

_____

Gerallt W. Hughes

DATE: _____